

Pris: 50c

Papur Pawb

Chwefror 2019Rhif 446



Hwyl yn Llangrannog tud. 10

tud 4	tud 6	tud 12	tud 12
Bagiau Claire	Teyrngedau	Y Gair Olaf	Chwaraeon

ADFER COEDWIG CWM EINION

Daeth nifer sylweddol o drigolion yr ardal i gyfarfod agored yn y Stafell Haearn Eglwysfach ar nos Iau 8fed o Chwefror i glywed am gynllun i adfer coedwig law Celtaidd Cwm Einion uwchben y pentref. Mae coedwigoedd glaw Celtaidd fel hon yn cael eu hystyried yn bwysig yn y cyd-destun Ewropeaidd.

O ganlyniad i filiynau o grant gan Ewrop a Llywodraeth Cymru, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn arwain prosiect sydd â'r nod o ddiogelu dyfodol hir-dymor coedlan dderw fawreddog y cwm. Mae'r cwm hefyd yn Ardal o Gadwraeth Arbennig ac mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Gwarchod Adar a Choed Cadw, bydd Awdurdod y Parc yn cynorthwyo yn y gwaith o reoli a difa planhigion estron fel y *Rhododendron* er mwyn rhoi bywyd newydd i'r coed derw naturiol. Ar hyn o bryd dyw'r goedwig ddim mewn cyflwr da a'r *Rhododendron* sy'n bennaf gyfrifol am y dirywiad gan ei fod yn newid ansawdd y pridd ac yn rhwystro golau'r haul rhag cyrraedd llawr y goedwig. Bydd y clirio a'r teneuo hefyd yn helpu planhigion brodorol fel mwsogl a chen dyfu a chryfhau.

Agwedd arall ar y prosiect yw'r bwriad i gyfoethogi'r bywyd gwyllt. Mae'r cwm yn gartref i anifeiliaid cyntefig fel yr afanc,



y wenci a'r carlwm a'r gobaith yw y bydd y gwaith yn rhoi cyfle newydd i'r rhain ac i greaduriaid eraill. Mae'r cwm hefyd yn nythfa i adar prin yn arbennig rhai sy'n mudo yno yn ystod misoedd yr haf fel Trochwr y Dŵr (*Dipper*), Telor y Coed (*Woodwarbler*) a'r Gwybedog Brith (*Pied Flycatcher*).

Roedd Llinos Alun, un o swyddogion Y Parc, yn y cyfarfod a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd cyd-weithio gyda'r gymuned leol ac roedd y cyfarfod agored yn ran o'r broses. Drwyddi draw bydd pwyslais ar ddefnyddio contractwyr medrus lleol ac o ran amaethu y gobaith yw cyflwyno pori cynaliadwy i rai o'r coedlannau. Yn ychwanegol mae Llinos yn awyddus i

sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion lleol er mwyn i'r disgyblion werthfawrogi cyfoeth naturiol Cwm Einion ac i ddysgu o'r newidiadau i'r tirwedd.

Bydd y prosiect yn dod i ben yn 2025, a'r gobaith yw y bydd yn codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd fel Coedwig Cwm Einion gan sicrhau bod yr hyn a gyflawnwyd trwy'r prosiect yn parhau am flynyddoedd i ddod. Yng nghanol yr holl drafodaethau ynglŷn a *Brexit* mae'n dra phosib mai hon fydd un o'r grantiau olaf a ddaw i'r ardal.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Neuadd Goffa Tal-y-bont

HWYL DDEWI 2019

Nos Sadwrn Mawrth 2il

Cawl a Chân yng nghwmni

Bois y Rhedyn

a

Disgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Gweinir cawl am 6.30

Adloniant 7.30

Tocynnau: Oedolion £8 Plant ysgol £4

Rhennir yr elw â Chronfa Ceulanamaesmawr Elsteddod Genedlaethol Ceredigion 2020

EISTEDDFOD CEREDIGION

2020

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560

Tynnu lluniau: Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578

Parsel Henllys: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Bont-goch: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre Taliesin: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Tre'r-ddôl: Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 703635
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Ysgrifennydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Trysorydd: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

Cyfarfod Blynnyddol
Nos Lun Mawrth 4 2019
8 o'r gloch yr hwyr
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso cynnes i bawb

CAPEL BETHEL TAL-Y-BONT

Nos, Iau, 21 Chwefror am 7.30
Theatr Gydweithredol
Troedryhiw
yn cyflwyno comedi
'Cymanfa Ganu Cwmffradach'
Mynediad yn £5
Bydd elw'r noson yn mynd
tuag at Apêl Madagascar

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

Cyfarfod Blynnyddol y
Pwyllgor Rheoli
Nos Fercher 13 Chwefror
2019
8.00 o'r gloch yr hwyr
Yn y Neuadd Isaf
Croeso cynnes i bawb.

GOLYGYDDION


Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Eirian a Geraint, gyda
Iolo yn dylunio. Diolch
iddynt. Y golygyddion ar
gyfer y rhifyn nesaf fydd Llio
(lliorhys@yahoo.co.uk) a
Cathryn (cat_yfoel@hotmail.
com). Y dyddiad cau yw 8
Mawrth a bydd y papur ar
werth ar 15 Mawrth.

Gwobrau Ariannol! Raffl!



CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau
oddi wrth fudiadau neu
gymdeithasau am gymorthdal
o'r gronfa uchod. Dylai'r
gymdeithas fod o fewn
ffiniau hen Gyngor Dosbarth
Aberystwyth. Gellir cael
ffurflenni cais oddi wrth
yr ysgrifennydd a dylid eu
dychwelyd cyn 31 Mawrth



Dyddiadur

CHWEFROR

- 16 Cletwr 11 Dal Ati
Cletwr 10-12 Bore coffi i ofalwyr
Bingo (Cylch Meithrin Tal-y-bont) 8 Y Llew Gwyn
- 17 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 John Huws
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrwl Weddi
- 18 Merched y Wawr Tal-y-bont
a'r Cylch 'Gwehyddu' (Llio James)
- 19 Cletwr 7-8.30 'Neges o'r Arctig' (Ben Porter)
- 20 - 20 Mawrth Cletwr 7-9 Cwrs
Caligraffi (Archebu ymlaen llaw)
Dawnsio Albanaidd 7.30
Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 21 Tai Chi 2 Ystafell Haearn,
Eglwysfach
Cwmni Theatr Troed-y-rhiw yn cyflwyno 'Cymanfa
Ganu Cwmffradach' 7.30 Capel
Bethel
Bingo 7.30 Wildfowler
- 22 Sesiwn Nos Wener 'Bwca a
Mwy' 8 Y Llew Du
- 23 Cletwr 11-1 'Archwilio
Tirweddau Micro (Joe Hope)
[pob lle wedi mynd]
- 24 Bethel 10 Geraint Evans
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi Hwyrwl
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth
Boreol
- 26 Cymdeithas Treftadaeth
Llangynfelyn 'Augustus
Brackenbury a Rhyfel y Sais
Bach' (Rheinalt Llwyd) 7.30
Llanfach
Tenis Bwrdd 7 Ystafell Haearn,
Eglwysfach
- 28 Tai Chi 2 Ystafell Haearn,
Eglwysfach

MAWRTH

- 1 Cwis 8 Wildfowler
- 2 Hwyl Ddewi gyda Bois y
Rhodyn 6.30 Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- 3 Bethel 11.15 Uno yn Nasareth
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 11.15 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
- 4 Sefydliad y Merched
Eglwysfach 'Pasant'
- 5 Sefydliad y Merched Taliesin
Cawl; 'Pyrenees, Sbaen' (S. Bell)
- 7 Bingo 7.30 Wildfowler
- 10 Bethel 10 Uno yn Seion, Stryd
y Popty
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi Hwyrwl
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth
Boreol
- 12 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Sain, cerdd a chan' (Jez Danks)
- 15 Cwis 8 Wildfowler

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3-5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol'
9.30-10.30

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu
eich sefydliad yn nyddiadur y mis,
dylech ddanfôn y manylion llawn
at Carys Briddon, [carysbriddon@
btinternet.com](mailto:carysbriddon@btinternet.com) (01970 832478)
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn
nesaf o Papur Pawb.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

LRJ
**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**
Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

Gwaith Achlysurol

Diddordeb mewn gwneud gwaith
cyfrifiadurol syml yn Y Lolfa?
Cysylltwch â Garmon Gruffudd ar
garmon@yloffa.com neu ffoniwch
01970 832 304.

y Lolfa

www.yloffa.com
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

- yn bont - rhwng yr
eglwys a'r gymdeithas
- yn fan cyfarfod - i
greu, i berfformio, i
wrando, i ddysgu, i
rannu
- yn lle agored - i bobl
o bob oed a chefnidir
a chred; cartref i'r
gymuned

www.morlan.cymru
01970 617996
morlan.aber@gmail.com

morlan.cymru
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

Ffair Sborion Eglwysfach

O bryd i'w gilydd mae aelodau gweithgar yr Eglwys yn cynnal bore coffi i godi arian i wahanol elusennau. Y tro yma ar fore Sadwrn, Ionawr 19fed roedd yr Ystafell Haearn o dan ei sang gyda dillad ail law, bric a brac, bargeinion diri a raffl. Yn ôl yr arfer paratowyd paned a chacennau blasus gyda pawb yn mwynhau. Ar derfyn y bore codwyd y swm sylweddol o £350 i gynnal a chadw yr achos. Erbyn hyn dim ond eglwys hynafol Sant Mihangel sydd a'i drysau ar agor ac mae'n hanfodol i ni wneud ein rhan i gefnogi'r lle hwn o addoliad.

Noson Burns

Cynhaliwyd Noson Burns yn yr Ystafell Haearn ar nos Sadwrn 26ain o Ionawr. Mwynhaodd nifer o bobl bwffe hyfryd yn cynnwys haggis draddodiadol yn cael ei gario i mewn i fiwsig y pibau gan Andrew Agnew, Penbanc, Eglwysfach gydag Andrew mewn gwisg Albanaidd lawn. Ar ôl y wledd cafwyd gryn hwyl yn dawnsio a hynny tan 11 o'r gloch yr hwyr!

Mae Andrew a'i wraig Janie ynghyd â Nigel a Janet Harding o Tre'r Ddol yn cynnal gwersi dawnsio Albanaidd yn yr Ystafell Haearn ar y trydydd dydd Mawrth o bob mis. Os oes unrhyw un â diddordeb mae croeso i chi ymuno yn y gwersi – £2 yw'r gost. Mae'r cyfan yn sbri ac yn fodd arbennig i gadw'n heini. *Och aye!*

Ar y teledu

Braf oedd gweld Russell Jones, Bron y Gân, Tal-y-bont yn sgwrsio gyda Iestyn Jones ar rhaglen Cynefin ar S4C. Mae Russell yn un o swyddogion Gwarchodfa Natur Ynyshir ac fe gafwyd eglurhad ganddo am agweddau cadwraeth tiroedd gwlyb fel Cors Fochno. Bu hefyd yn esbonio am gyfraniad gwyfynod i'r cylch cadwraeth.

Ysbyty

Mae Liz Roberts, Maes y Deri, Tal-y-bont wedi derbyn

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Pobl a Phethe



Ymwelodd dwy o aelodau cangen Tal-y-bont a'r cylch o Ferched y Wawr ag Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais yn ddiweddar i gyflwyno'r arian o godwyd yn y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol a drefnwyd gan y Gangen ym mis Rhagfyr. Gwnaed casgliad o £330 ar y noson. Yn y llun gwelir Elizabeth Evans a Carys Briddon o Ferched y Wawr a Rhian Jones Uwch Nyrs Cemotherapi ac Eirian Gravelle Nyrs Haematoleg Arbenigol.

triniaeth yn Ysbyty Bronglais. Dymuniadau gorau iddi am wellhad llwyr.

Yr un dymuniadau am lwyr wellhad i Dafydd Jenkins, Penpompren, Tal-y-bont yn sgîl triniaeth law feddygol ar y galon yn ysbyty Treforys. Mae'n siŵr y bydd y teulu yn falch o'ch gweld yn dychwelyd adref ac i daflu golwg dros y tymor wyna, os nad i roi help llaw. Brysiwch wella Dafydd.

Llongyfarchiadau

Mae Siân James, Sŵn y Nant, Tal-y-bont wedi cwblhau arholiadau Pilates ac nawr yn gymwys i gymryd dosbarthiadau yn y maes. Cynllun ffitrwydd yw Pilates a ddatblygwyd yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif gan Joseph Pilates o'r Almaen. Mae'r grefft yn boblogaidd ymhob rhan o'r byd ac mae tystiolaeth yn dangos fod yr ymarferion yn gymorth i boen cefn, i ystwytho'r cyhyrau ac yn cryfhau balans. Llongyfarchiadau i Sian.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwm â David Nutting a'i fam Mrs. Tegwen Nutting, Tŷhen Henllys, Tal-y-bont ar golli modryb a chwaer yn ddiweddar.

Danfonwn ein cydymdeimlad i Myra Price, Cartrefle, Tal-y-bont ar golli brawd oedd yn byw yn Telford.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Sharon Lewis, York House,

Tre'r Ddol ar golli ei modryb yn Llundain.

Hefyd i Evan Astley, Y Gorlan, Tal-y-bont ar golli ei chwaer yng nghyfraith yn Cemaes Rd. Machynlleth.

Cydymdeimlwn â Meinir a Paul Fleming, Penygraig, Tre'rddol a'r teulu ar farwolaeth mam Paul, Mrs. Eunice Fleming.

Penblwydd arbennig

Penblwydd Hapus i Siwan Thomas, Glas y Ddôl, Tal-y-bont ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Cafwyd tipyn o hwyl ar y dathlu!

Dymuniadau da

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs. Valma Jones gynt o'r Wern sy'n gwella ar ôl cwmp.

Cartref Newydd

Mae Tasha a Claire newydd symud ychydig i lawr y lôn i Rhiwlas, Tre Taliesin. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno.

Croeso

Croeso cynnes i Andrea a'i chwaer Jane sydd wedi symud i Rhos, Tre Taliesin o Dorset yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yma.

Penblwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Alun Jones, Cnw-c-y-bar-cud, Bont-goch ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Rali Geir

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Eglwys St. Pedr, Elerch ar nos

Fercher 20 Chwefror am 7.30 pm i drafod trefniadau y rali geir sy'n dod drwy'r pentref ar 8 Medi. Croeso i bawb.

Newid Aelwyd

Dymuniadau gorau i Phil a Lynne Clarke, Tŷ Rhosyn, Bont-goch sydd newydd symud i fyw i Swydd Dorset.

Apêl am enwau milwyr a syrthiodd mewn rhyfel

Mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont yn awyddus i wybod a oes rhai o'r darllenwyr yn gwybod am unrhyw filwyr o'r ardal, sef pentrefi Tal-y-bont a Bont-goch yn bennaf, a fu farw wrth wasanaethu mewn rhyfel. Y bwriad yw ychwanegu enw unrhyw filwr nad yw ei enw eisoes yn hysbys ar gofeb yn y Neuadd Goffa.

Os oes rhywun yn gwybod am filwr a fagwyd yn lleol y dylid ei goffáu yn y modd hwn, yna cysylltwch ag Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheoli, sef D. Philip Davies, Gwynionydd, 4 Maes-y-felin, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5DZ. Tel: 01970 832384. gwynionydd@btinternet.com

Cyntaf i'r felin

Mae gan Mrs Kathleen Richards, Bryn gasgliad mawr o ôl-rifynnau o'r Blewyn Glas a'r Tincer. Os hoffai unrhywun eu cael cysylltwch gyda Kathleen.



Roedd Caoimhe Melangell Pennant, Bontgoch yn aelod o dîm cwis cynradd Adran Aberystwyth a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth cwis a drefnwyd gan yr Urdd ac a gymerodd le yn Llambled. Roedd yn rhaid ateb 100 o gwestiynau!

Parti Gŵyl Ddewi Cynnar
Sesiwn Nos Wener Talybont

Bwca

Cerddorfa Iwcs a Hwyl
Ffion Evans

Y Llew Du Talybont
8 y.h. Nos Wener Chwefror 22ain
Tocynnau: £7 (robat@ytolfa.com)
Cefnogir gan Noson Allan

CFFI Tal-y-bont

Bu aelodau CFFI Talybont wrthi yn canu carolau ar hyd a lled yr ardal yn ystod cyfnod y Nadolig, a braf yw medru cyhoeddi bod swm sylweddol wedi cael ei gasglu eto eleni. Bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei rannu rhwng tri achos da – Mind Aberystwyth, yr Ambiwylans Awyr a Ward Ystwyth, Ysbyty Bronglais.




Llongyfarchiadau mawr i'r aelodau a fu'n cystadlu yn Ngŵyl Siarad Cyhoeddus y Sir ar ddiwedd mis Ionawr. CFFI Talybont oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Tîm o dan 14 oed, gyda Elain Tanat yn ennill y wobr gyntaf fel y Darlennydd Gorau ac Oisín Lludd yn ail fel Darlennydd a Chadeirydd. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm o dan 16 oed a ddaeth yn bedwerydd, gyda Teleri Morgan yn dod yn drydydd fel Siaradwr Gorau. Diolch yn fawr iawn i Rhian Evans am hyfforddi'r criw a phob lwc iddynt yng nghystadleuaeth Cymru ym mis Mawrth.



Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf yn y cinio blynyddol a gynhaliwyd yn y Marine. Braf oedd gweld cynifer o aelodau presennol, cyn aelodau a ffrindiau'r Clwb yn dod ynghyd i fwynhau noson gymdeithasol hyfryd.

Y digwyddiad pwysig nesaf ar ein amserlen yw'r Wyl
Adloniant a gynhelir yn Theatr Felinfach yn ystod wythnos hanner
tymor mis Chwefror – mae'r paratoi wedi dechrau eisoes!



**Beth ydych chi'n hoffi gwneud yn eich amser hamdden? Cerdded?
Beicio? Garddio? Coginio?**

Mae Claire Fowler o Bron-y-Gân Tal-y-Bont wrth ei bodd gyda phob un o'r rhain. Ond mae hi hefyd wrth ei bodd yn creu pob math o bethau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau.

Bu ar nifer o gyrsiau dros y blynyddoedd er mwyn dysgu sut i greu gwrthrychau amrywiol o wydr lliw i wiail ac mae ei chartref hi a'i gŵr Russell ynghanol y pentref yn llawn trysorau sy'n brawf o'i thalentau creadigol. Ond bu'r cwrs diweddaraf yn agoriad i brosiect hynod a chyffrous.

Un o Gaerlŷr yw Claire yn wreiddiol ond symudodd i'r ardal yn 1989 i weithio gyda'r Cyngor Gwarchod Natur. Ymunodd â staff yr RSPB wedi chwe mlynedd a than yn ddiweddar bu'n gweithio gyda'r Cynulliad fel aelod o staff y *Field Studies Council*. Mae gwarchod yr amgylchedd a byw'n wyrdd yn fwy na gyrfa i Claire ac mae ailddefnyddio neu uwchgylchu (*up-cycle*) yn nodwedd amlwg ei chreadigaethau diweddaraf.

Yn mis Hydref llynedd mynychodd gwrs arbenigol yn Brighton er mwyn dysgu sut i wneud bagiau allan o ledr. O ganlyniad ychwanegwyd at y casgliad o beiriannau gwnïo oedd gan Claire yn ystafell winïo ei chartref. Erbyn hyn mae ganddi beiriant diwydiannol sy'n gallu ymdopi â phob math o ddeunyddiau.

Jones a Ginger yw enw swyddogol y fenter ddiweddaraf i ddenu talentau Claire. Os ewch ar-lein i'w thudalen ETSY (gwefan fyd-eang lle gall gwneuthurwyr werthu eu cynnyrch) fe welwch amrywiaeth eang o fagiau, y cyfan yn gynlluniau gwreiddiol sy'n cael ei llunio a'u cynhyrchu gan Claire ei hun.


Mae'n ail-defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a fu unwaith yn gôt, siaced ledr neu flanced i greu yr eitemau unigryw. Daw'r cynnyrch gwreiddiol o siopau elusen neu fel rhoddion gan ffrindiau neu deulu. Y gamp yw cyfuno'r deunyddiau a'r cynllun i greu gwrthrych a fydd yn apelio, boed hwnnw'n fag siopa allan o hen siwt neu bag i ddal laptop o got ledr ddu neu flanced frethyn.

Yn unol â'i hagwedd at fywyd mae Claire yn gweld y cyfan fel cyfraniad naturiol at ffordd synhwyrol o fyw. "Mae nifer ohonom yn cadw eitemau personol fel blancedi neu ddillad, efallai mewn cyflwr da neu wedi'u treulio oherwydd ei bod yn dwyn atgofion hapus – atgofion o wyliau neu adeg arbennig. Yn aml dydy'r pethau ddim yn cael defnydd ac efallai mewn drôr o'r neilltu. Mae modd rhoi bywyd ac phwrpas newydd i'r eitemau ac ar yr un pryd llunio rhywbeth a all fod o wir ddefnydd."

Mae'n wir fod y syniad o fedru prynu eitem unigryw wedi'i gynllunio o ddeunyddiau a uwch-gylchwyd yn apelio i nifer gynyddol o brynwyr sy'n chwilio am nwyddau gwahanol i'r hyn a gynnigir gan y siopau mawrion.

Erbyn hyn mae arfer a ddechreuodd fel gweithgarwch amser hamdden wedi troi'n fenter boblogaidd gyda nifer y cwsmeriaid bodlon yn cynyddu o ddydd i ddydd. Mae Oriel Seren yn Machynlleth wedi gwahodd Claire i gymryd safle y mis ar ddydd Sadwrn 16 Chwefror rhwng 2 a 4 ac felly cofiwch alw heibio i weld y cynnyrch bendigedig ar werth.

Os oes gennych rywbeth yr hoffech weld yn cael ei drawsnewid croeso i chi gysylltu â Claire ar 07787726880.



Colofn Ben Lake A.S.

Does dim osgoi'r anrhefn a'r llanast yn Senedd San Steffan ar hyn o bryd. Mae'r awyrgylch wrth droedio'r coridorau yn brudd ac mae'n anodd gweld goleuni ym mhen draw'r twnnel tywyll yn sgil Brexit.

Yma yng Ngheredigion a gorllewin Cymru, does dim dwywaith ein bod ni wedi elwa o'r buddsoddiadau yr ydym wedi ei dderbyn gan yr Undeb Ewropeaidd. Rhwng 2014 a 2020, bydd Cymru wedi derbyn dros £2 biliwn, ond unwaith y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael, bydd mynediad at y cronfeydd ariannol hynny, wrth reswm, yn dod i ben.

Nod cyllid yr Undeb Ewropeaidd yw lleihau'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli rhwng gwledydd a rhanbarthau – y math o anghydbwysedd economaidd sy'n gweld ein pobl ifanc yn gorfod gadael i chwilio am waith ymhell o'u cynefin.

Addawodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddent yn disodli buddsoddiad yr Undeb Ewropeaidd gyda chronfa newydd ar ôl Brexit, dan y teitl "Cronfa Ffyniant Gyffredin".

Er gwaethaf yr addewidion i ymgynghori ar fanylion y gronfa cyn diwedd 2018, ry'n ni'n dal i aros am ragor o wybodaeth. Nid ydym yn gwybod faint o arian fydd yn y gronfa, sut bydd y cyllid yn cael ei rannu ar draws y Deyrnas Unedig, na phwy fydd yn gyfrifol am wario'r arian.

Dwi wedi holi a holi, yn ysgrifenedig ac yn y siambr, dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf am ragor o fanylion am y gronfa, ac am sicrwydd na fydd cefn gwlad Ceredigion ar ei cholled unwaith eto, dan law San Steffan, ond dwi'n dal i aros am atebion pendant.

Mae'n hollbwysig bod gan Gymru lais ynghylch ble a sut yr ydym yn buddsoddi yn ein gwlad, a bod y blaenoriaethau ar gyfer ein cenedl yn cael eu penderfynu yma yng Nghymru, ac nid yn Llundain. Byddaf yn parhau i godi fy llais yn San Steffan er mwyn sicrhau tegwch i gymunedau Ceredigion.

Os hoffech chi gysylltu â mi am unrhyw fater, mae croeso i chi ffonio fy swyddfa ar 01570 940333 neu ebostio ben.lake.mp@parliament.uk

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Chwiorydd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 8 Ionawr. Phil Thomas, Llandre, oedd y gŵr gwadd a chafwyd ganddo hanesion diddorol am ei waith a'i yrfa fel milfeddyg. Bu ganddo ddiddordeb mewn creaduriaid a gwyddoniaeth ers yn blentyn, a phenderfynodd ddilyn gyrfa fel milfeddyg. Ar ôl graddio o Goleg RVC yn Llundain, treuliodd rai blynyddoedd yn gweithio yn Llanymddyfri, Penybont-ar-Ogwr a Chemmaes Road, cyn treulio tair blynedd gyda'r VSO yn Cambodia. Ar ôl dychwelyd oddi yno bu'n gweithio am gyfnod yn Peebles yn yr Alban cyn ymuno â phartneriaeth Milfeddygfa Ystwyth yn Llanbadarn yn 1999. Diolchwyd iddo am brynhawn diddorol, ac yna mwynhawyd te a chacen wedi eu paratoi gan Bethan Davies a Carys Briddon.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS

www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDIWYR IN PEOPLE | MEWN POBL



Cynllun newydd i greu rhwydwaith o wefannau bro Cymraeg yw Bro 360 ac yn ddiweddar cynhaliwyd sesiynau yn Nhal-y-bont a Thre'r Ddol i rannu gwybodaeth am y cynllun. Cwmni Golwg sydd tu cefn i'r fenter ac fe fydd yn cael ei dreialu mewn dwy ardal – Gogledd Ceredigion ac Arfon. Y bwriad yw cyd-weithio gyda phartneriaid a allai gynnwys papurau bro, mudiadau a chymdeithasau ac unigolion i greu gwasanaeth arloesol a fydd yn defnyddio holl adnoddau'r rhyngwyd a gwefannau cymdeithasol, fideo a blogiau yn ogystal â geiriau a lluniau.

Rheolwr y prosiect yw Owain Schiavone ac mae'n gweld y cynllun fel cam naturiol. "Tua deugain mlynedd yn ôl, mi greodd papurau bro chwyldro yn y wasg Gymraeg ac ym mywyd cymunedau Cymraeg; mae'n bryd ceisio gwneud yr un math o beth ar gyfer y ganrif newydd gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd."

Lowri 'Fron' Jones yw cydlynnydd y prosiect ac mae'n edrych ymlaen yn fawr i fod yn rhan o'r fenter o'r cychwyn cyntaf. "Mae'r cynllun yn fodd i ddenu cyfranwyr gwahanol, gan rhoi hyder i bobl lleol i wneud gwahaniaeth. Efallai na fydd rhain erioed wedi ystyried sgwennu i'r papur bro ond mae nhw yn drydarwyr cyson ac mae angen tapio'r arfer a'r talent yma."

Trydydd aelod y tîm yw Daniel Johnson ac wedi gweithio am gyfnod yn Adran Marchnata Prifysgol Aberystwyth mae'n hen gyfarwydd â dulliau pobl ifanc o gyfathrebu. "Rhaid gweld y cyfryngau digidol mwy fel cyfle na bygythiad, ffordd wahanol o drosglwyddo newyddion ar draws cymunedau ac ar gynfas ehangach. Mae hefyd yn gyfle i osod y Gymraeg yng nghanol y pair digidol, rhywbeth na welwyd rhyw lawer ohono hyd yn hyn."

Daw'r arian i gefnogi'r cynllun drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Y gobaith yw gweld y wefan yn fyw erbyn haf 2019 a dyna wrth gwrs brawf cyntaf y cynllun.

Merched y Wawr, Talybont a'r Cylch

Roedd cael ymweliad gan yr heddlu yn brofiad newydd i Ferched y Wawr Tal-y-bont, a phan ddaeth heddwas i'w canol wedi ei wisgo mewn gwisg ddu fygythiol ynghyd â bagiau a rhaffau, ni wyddent yn iawn beth i'w ddisgwyl, nes i Enid Gruffudd ei gyflwyno fel P.C. Hefin Jones, heddwas yn arbenigo newn hyfforddi cŵn, ac mai ef oedd y siaradwr gwadd am y noson.

Cawsom sgwrs ddifyr iawn ganddo yn sôn am ei brofiadau gyda'r cŵn. Roedd yn amlwg fod hon yn swydd bwysig iawn o fewn yr heddlu gan fod galw yn aml am ddyn a'i gi pan oedd angen dal lladron, chwilio am gyrff marw neu ddarganfod cyffuriau, ac roedd i bob ci ei briod faes. Roeddent yn gallu arwain eu meist'r ar y trywydd iawn, neu'n gallu aroglu'n fanwl iawn ym mha fag roedd cyffuriau wedi eu cuddio mewn maes awyr.

Rhaid bod ci a'i hyfforddwr yn ymddiried yn llwyr y naill yn y llall. Roedd yn cymryd amser mawr i feithrin y cysylltiad arbennig hwn rhwng y ci a'i feistr gan fod angen i'r dyn wybod y byddai'r ci yn ufuddhau i bob gorchymyn ar unwaith, ac y byddai'n barod i'w amddiffyn ef i'r eithaf os byddai'r hyfforddwr mewn perygl. Daeth Hefin Jones a'i gi i ddangos i ni, ac nid Alsatian ffyrnig fel yr ofnem, ond Spaniel hyfryd y gallem yn hawdd ei anwylo. Rhyfedd er hynny i'r ci anelu yn syth at un o'r aelodau ac eistedd yn ddi-symud wrth ei thraed!

Diolchodd Medi James i'r heddwas am roi noson ddifyr dros ben i ni, ac er fod rhai ohonom wedi ofni ymddangosiad rhyw anghenfil o gi, nid felly y bu: roeddem i gyd wedi dotio at y berthynas hyfryd oedd rhwng y ddau.



Olwen Rowlands (1936-2018)



Olwen wedi gwneud ffrind arall ar ymweliad Chworiydd Rehoboth â chartref Bethan Gwanas ychydig flynyddoedd yn ôl.

Ni chrwydrodd Olwen ymhell o Daliesin erioed. Serch hynny, iddi hi, roedd ei bywyd yn 3 Wesley Terrace, lle y'i ganed a lle bu'n byw gydol ei hoes tan yn gymharol ddiweddar, yn grwn ac yn gyflawn. Yn y tŷ hwnnw roedd wedi gofalu am ei rhieni a'i brawd hynaf Robert yn eu henaint a'u cystudd olaf a byddai bob amser llw o ymwelwyr yn picio heibio i'w gweld. Roedd yna ryw glydwch a chynhesrwydd cynhenid yn perthyn i'r aelwyd a ddenai ei cheraint a chyfeillion draw'n gyson am sgwrs a phaned a byddai'r sgwrs honno bob amser yn werth chweil ac mor flasus â'r pentwr o deisennau a danteithion eraill y byddai hi'n gosod yn ddi-fael ger eich bron pe baech yn galw.

Yn ogystal â'i chartref a'i theulu, o'r pwys mwyaf ac yn sylfaen cadarn i fywyd Olwen roedd eglwys y plwyf a loes calon iddi yn y blynyddoedd diwethaf oedd dirywiad trist adeilad Eglwys Llangynfelyn a thrai anochel ei chynulleidfia.

Pwysig iddi hefyd oedd ei bro a thybed sawl un o ddarlennwyr Papur Pawb sydd â chasgliad cyflawn o'r papur o'r cychwyn cyntaf yn ei feddiant – a Lloffion Llangynfelyn cyn hynny, wrth gwrs – fel yr oedd gan Olwen? Gwyddai pwy oedd wedi byw ym mhob tŷ yn y pentre ac roedd wrth ei bodd yn cael rhannu tipyn o'i hanes.

Mae colli Olwen yn cau pennod bwysig ddiweddar yn hanes y pentre, achos er, wrth reswm, fod anwyliad a disgynyddion teulu'r Rowlands yn dal i fyw yn Nhaliesin a'r cyffiniau, Olwen oedd yr olaf o'r pedwarawd o dri brawd a chwaer – Robert, Dafydd, Lloyd ac Olwen – a dreuliodd oes gyfan yma. Roedd hefyd chwaer arall, Annie, oedd yn byw yn Swyddffynnon ac sydd wedi ein gadael erbyn hyn. Braint aruthrol yw cael dweud bod Siân a finnau wedi dod yn ffrindiau efo nhw i gyd – a does ryfedd a hwythau i gyd mor hawddgar a ffeind.

Un addfwyn a diachwyn oedd Olwen hyd y diwedd – hebddi fydd bywyd yn Nhref Taliesin fyth yr un fath.

MD

Menna Jenkins (1927-2019)

Ar Ionawr y 5ed, bu farw un o gymeriadau annwyl yr ardal sef Menna Jenkins, Ynys Capel. Ganed Menna yn y flwyddyn 1927 ar fferm Rhydybenwch, Glynhafren, Llanidloes. Fferm anghysbell, un o'r agosaf at darddiad yr Hafren. Erbyn heddiw, adfail yw, wedi ei hamgylchynu â choed. Menna oedd yr ieuengaf o chwech o blant i Andrew a Catherine Bennett. Bugail oedd ei thad ar un o ffermydd ystâd Y Glyn. Pan oedd Menna yn ryw bedair oed bu'r tad yn ddigon ffodus i gael benthyciad o dri chan punt a hynny yn hollol ddi-log gan Thomas Jones, Y Glyn. Roedd hyn yn ei alluogi i gymeryd fferm, sef Maenuwch, Clarach, ar ei liwt ei hun.

Roedd Maenuwch y tridegau dipyn gwahanol i'r hyn y mae heddiw. Fe frwydrodd ei thad yn galed i gael gwared o'r drain a'r eithin o'r caeau. Roedd arian yn brin ac fe aeth y brodyr allan i weithio ar ffermydd cyfagos. Aeth Menna i Ysgol Eglwys, Clarach, ond pan fu honno gau bu raid cerdded dipyn ymhellach i Ysgol Rhydypennau, lle gwnaeth lu o ffrindiau am oes. Adre yn helpu ei thad oedd yn aml, a soniau am gario'r ŷd i ganol y cae i'w gwrdd tra'n hau. Arferai'r ddau fynd ar y drol fach i'r pentrefi cyfagos i werthu ŵyau a menyng, a cherdded y gwyddau ar hyd y ffordd o Faenuwch i Tŷ Du, Y Borth.

Yn 1951, priododd â Bennett Jenkins, Cerrigcaranau yng



Nghapel y Garn a dyna ddechrau cyfnod ymron i chwe deg a thair o flynyddoedd o hapusrwydd a chyd-dynnu pur. Yn wir, ni allaf feddwl am bâr mwy dedwydd na Bennett a Menna. Bu'r ddau yn ddiwyd drwy gydol eu hoes. Y godro ddwywaith y dydd, bob dydd, bob wythnos. Cyfnod o gadw ieir a thorred o foch ond roedd teyrngarwch i'r Fuwch Ddu Gymreig yn parhau.

Roedd yn hoff o gymdeithasu. Y Sioe Frenhinol a Sioe Talybont oedd y ffefrynnau a byddai hefyd bron byth yn methu y seli gwartheg duon yn Nolgellau. Bendithiwyd hwy gan dri o blant, Dilwyn, Tegwen a David. Roedd yn hoff iawn o blant ac ymhen amser daeth yr wyrion i'w diddanu-Caryl, Eifion, Geraint, Hannah a Rhiannon. Yn eu tro y gorwyrion-Aneira, Gwilym, Elinor, Leusa ac ar noswyl Nadolig 2018 ganwyd Owen Edward sef mab bach i Hannah ac Edward.

Cafodd ergyd drom bum mlynedd yn ôl pan gollodd ei chymar annwyl, Bennett, ond mynnodd i barhau i fyw yn annibynnol. Fe fyddwn yn mynd i'w gweld yn Ynys Capel yn gyson. Dros baned, fe fyddai llawer o'r trafod am yr hen ddyddiau a sut oedd hwn a'r llall yn perthyn i'w gilydd. Person arbennig gyda gwir diddordeb mewn pobl oedd Menna ac fe fyddai pawb a ddeuai i'r ffald yn sicr o alw mewn am baned a chlonec a chofiwn amdani efo'i gwên gynnes a'i chroeso parod.

Owen Jenkins

Dymuna'r teulu ddatgan eu diolch am bob gofal a dderbyniodd Menna gan staff Meddygfa'r Llan, Nyrsys Bro Meddygfa'r Borth a staff Ysbyty Bronglais. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Gwerthfawroga'r teulu bob cyfraniad a dderbyniwyd tuag at Uned Cemotharapi Leri Ysbyty Bronglais.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr



Aelodau o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar achlysur anrhegu cyn glerc y Cyngor, Lowri Jones.

Cyfarfod Arbennig Mis Ionawr

Cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Cymuned ar Nos Lun, 21 Ionawr 2019, gyda dau eitem ar yr agenda. Prif drafodaeth y cyfarfod oedd gosod cyllideb am y flwyddyn ariannol 2019/20 a phenderfynu ar y praesept. Cytunwyd bod raid codi'r praesept er mwyn talu am y cynnydd mewn costau y mae'r Cyngor yn ei wynebu. Yn dilyn trafodaeth ar bob eitem yn y cyllideb cytunwyd gosod praesept o £14,400, sef codiad o 6.7% ar ffigwr 2018/19.

Yr ail eitem ar yr agenda oedd llenwi'r sedd wag ar y Cyngor. Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn un cais a hynny oddi wrth Catrin M S Davies. Yn dilyn trafodaeth byr cytunodd y Cynghorwyr ofyn i Catrin lenwi'r sedd wag ar y Cyngor Cymuned.

Cyfarfod Misol Mis Ionawr

Wythnos yn ddiweddarach, cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont ar Nos Lun, 28 Ionawr 2019.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Cymorthdaliadau 2018/19

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymeithasau a mudiadau lleol. Dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau, nifer y bobl byddai'n elwa, a manylion unrhyw brosiect arbennig (os yn gymwys). Ni all y Cyngor ystyried unrhyw gais heb gopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Dylid danfon ceisiadau at:-

Mr Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Erw Deg

Glantwymyn

Machynlleth, SY20 8LD

rab.jones@btinternet.com

Dyddiad cau:- Dydd Iau, 21 Chwefror 2019

Cynghorydd Newydd

Croesawyd Catrin M S Davies yn swyddogol i'r Cyngor Cymuned a chafodd hi groeso cynnes iawn gan y Cadeirydd, Cyng Enoc Jenkins, a'r Cynghorwyr i gyd.

Seremoni Goleuo y Nadolig

Cytunwyd bod trefniadau Seremoni Goleuo y Nadolig wedi gweithio'n dda a chytunwyd ymestyn diolch i bawb a gymerodd rhan yn y trefniadau. Yr oedd y Cynghorwyr i gyd yn teimlo fod cyfraniad y plant ysgol wedi bod yn wych ac yr oedd Mr Hefin Jones a staff yr ysgol ynghyd â'r plant i gyd yn haeddu clod. Cytunwyd bod rhaid mynd ati i archebu seren newydd ar gyfer y goleuadau ar y Neuadd Goffa yn 2019 oherwydd fod y seren bresennol yn edrych braidd yn drist erbyn hyn.

Cymorthdaliadau 2019

Ymddiheurodd y Clerc nad oedd hysbyseb wedi ymddangos yn Papur Pawb ym Mis Rhagfyr i wahodd ceisiadau gan gymdeithasau a mudiadau lleol am gymorth ariannol oddi wrth y Cyngor Cymuned. Cytunwyd roi hysbyseb yn rhifyn Chwefror o Papur Pawb ac mi fydd rhaid trafod y ceisiadau yn y cyfarfod misol nesaf ar ddiwedd Mis Chwefror.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o faterion gyda'r ffyrdd yn yr ardal a nifer o faterion eraill. Mi fydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor Cymuned ar Nos Lun, 25 Chwefror 2019.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com 07831 402 002

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cyfarfod Mis Ionawr

Diogelwch y ffordd yn Nhaliesin

Bydd adolygiad cyflymdra yn dechrau yng Ngheredigion cyn bo hir. Disgwylir y bydd pentrefi Taliesin a Thre'r Ddôl yn cael eu cynnwys yn hwn.

Gofynnwyd i'r Cyngor Sir, eto, am ragor o "scalpings" i'w rhoi lawr ar ochor y ffordd ger Temprance i greu mwy o le i barcio ceir.

Golau ar y A487 yn Nhref'r Ddôl

Cytunodd y Cyngor Cymuned bod angen golau ar y palmant sydd ar y ffordd fawr o'r Wildfowler i'r Cletwr er diogelwch i'r cerddwyr. Daeth Arolwg Asiantaeth y Cefnffyrdd (MWTRA) yn ôl gan ddweud nad oedd angen golau ond bod angen torri coed. Bydd y Cyngor Cymuned yn ymchwilio ymhellach i'r adroddiad yma.

Llwybr cerdded rhwng Tal-y-bont a Thaliesin

Erbyn hyn, mae yna wahanol lwybrau yn cael eu hystyried ar gyfer y llwybyr cerdded. Gobeithir cerdded y gwahanol lwybrau cyn bo hir.

Trafodwyd a chafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

SESIWN NOS WENER



Yng nghanol holl helynt a chawlach *Brexit* mae'n dda cael laff a dyna gafwyd yn Noson Gomedï Sesiwn Nos Wener yn ddiweddar. Daeth tri comediwr stand-yp atom – Aled Richards, Eysyllt Sears ac Eleri Morgan. I fi mae stand-yp rywbeth tebyg i groesi afon Ceulan ar weiren denau heb rwyd achub. Os ydych chi'n cyrraedd yr ochr draw yn ddiogel mae pawb yn curo dwylo ac yn bwysicach yn chwerthin. Os ydych chi'n llithro a syrthio i'r dŵr does fawr o gydymdeimlad – chi oedd ar fai am fentro, nid y gynulleidfa. Yn ail mae digrifwch a beth sy'n peri i rywun chwerthin yn bersonol iawn – mae'r hyn sy'n ddoniol i fi yn ddiflas a boring i chi.

Wel, llwyddodd y tri i osgoi trochiad yr afon ac fe lwyddwyd hefyd i apelio at drawsoriad eithaf eang o wrandawyr. Cyffes bersonol, gair o'r frest, a gafwyd gan y tri yn hytrach na llinyn o jôcs ac yn ei hanfod dyna beth yw stand-yp. Profodd Aled bod

modd gweld ochr ddoniol i brofiad mor ddifrifol a harten, gwnaeth Eysyllt gloddio'n llwyddiannus ar wythiennau bythol gyfoethog addysg a'r iaith Gymraeg tra bod Eleri wedi canolbwyntio ar ei phrofiad o actio mewn panto dros y Nadolig. Mae'r tri yn lleol, Aled wedi'i fagu yn Aberystwyth ond yn byw bellach yng Nghaerdydd, Eysyllt yn dod o Bow Street a hithau hefyd yn byw yng nghyffiniau'r brifddinas ac Eleri wrth gwrs yn gyn-ddisgybl yn ysgol Tal-y-bont ac wedi treulio ei phlentyndod yn Maesnewydd, fferm ei rhieni.

Yn dilyn cyfnod yn Penweddig aeth Eleri i'r *Arts Education School* yn Llundain. Bu'n actio yn rhai o brif theatrau Llundain a Bryste ac mae hefyd wedi ymddangos mewn cyfresi drama teledu, gan gynnwys *Y Gwyll*. O ran gwaith comedi mae wedi perfformio yng Ngŵyl Ffrinj Abertawe 2017 ac eleni bydd yn rhannu llwyfan gydag Eysyllt yng Ngŵyl Gomedï Caerlŷr a Gŵyl Caeredin. Bu'n cyflwyno set Gymraeg yng Ngŵyl Gomedï Aberystwyth yn 2018 ac mae'n un o gyflwynwyr cyfres BBC Wales *Sesh*.

Mae ysgol brofiad stand-yp yn ysgol galed ond mae Eleri wedi dysgu drwy fod yn ddewr a hefyd drwy gymryd rhan mewn 'nosweithiau cyfansoddi' lle mae comediwyr yn arbrofi i weld beth sy'n gweithio a beth sy ddim. Hi yw'r cyntaf i gydnabod iddi gael profiadau gwael – sefyll ar lwyfan am un ar ddeg y nos mewn clwb swnllyd lle nad oes neb yn clywed na gwrando waeth pa mor dda yw'r jôcs. Roedd yn cyfadde fod y nerfau ar waith yn Sesiwn Nos Wener, wedi'r cyfan roedd yn 'chwarae adref' ac mae 'na ochr braf ac ochr anodd i ymddangos o flaen criw sy'n eich adnabod. Wel, ar y noson bachodd Eleri ei chyfle i gysylltu'n hwyliog i ennyn ymateb a gosod y gynulleidfa'n hapus yng nghledr ei llaw – uchelgais pob stand-yp mae'n siŵr.



Yn y blynyddoedd gynt roedd y mis bach yn amser tawel i Cletwr, ond nid yw hynny'n wir bellach (diolch byth!) – mae'r caffi yn brysur bob dydd yn ystod amser cinio, gyda chwsmeriaid hen a newydd.

Mae ein rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn parhau i fod yn un lawn. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld sgysiaid, cyngherddau a Ffair Lesiant y Gaeaf, yn ogystal â'n cyrsiau hyfforddi cyfrifiadurol. Roedd y cyngerdd gan TacLa (Cerddoriaeth swing-sipsi, jazz a gwerin) yn arbennig o boblogaidd

Rydym yn brysur iawn yn yr wythnosau i ddod hefyd. Ar yr ail o Fawrth fe fydd noson canu gymunedol a swper, ynghyd â chyflwyno 'Gwobr Bensaernïaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru', a enillwyd yn 2018 ar gyfer adeilad newydd Cletwr, i benseiri

lleol 'George & Thomas'. Dyma'r cyntaf o sawl digwyddiad i godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol 2020. Darperir bwyd gan 'Aber Food Surplus'. Awgrymir yn gryf i chi archebu'ch lle. Trwy rodd. Ffoniwch y Siop neu e-bostiwch: events@cletwr.com i gadw lle. Mwy o fanylion ar y wefan a Facebook.

Rydym hefyd yn ceisio darparu mwy nac adloniant da ar gyfer y gymuned. Parthed hynny, ddydd Sadwrn 16 Chwefror cynhelir Bore Coffi yn y caffi ar gyfer Gofalwyr. Ymunwch â ni am gacen a sgws ac i gael gwybod pa gymorth sydd i'w gael. Jyst galwch heibio – ac mae e am ddim!

Ac wedyn, ar nos Wener yr 8fed o Fawrth, bydd un arall o'n nosweithiau ffair – Ffair Elusennau y tro 'ma. Fe fydd detholiad o grefftau ac anrhegion gan elusennau. Dyma gyfle i elusennau lleol godi arian ar gyfer eu grŵp. Cysylltwch â Sue Davies – events@cletwr.com os oes gennych ddiddordeb mewn cael stondin.

Ac mae Jane a Siwan yn edrych ymlaen at ymwisgo yn eu ffrogiau gorau a mynd i noson gwobrwyo y "*Rural Business Awards*" mewn gwesty posh yn swydd Caerwrangon mis nesaf. A fydd Cletwr yn ennill gwobr arall?



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Cawl a Chân

Nos Sadwrn 2 Mawrth 19.00 – 21.00



Ymunwch â ni i godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol fydd yn cael ei chynnal yng Ngheredigion yn 2020.
Bwyd gan 'Aber Food Surplus'.

Awgrymir yn gryf i chi archebu'ch lle. Trwy rodd.
Ffoniwch y Siop neu e-bostiwch: events@cletwr.com i gadw lle.

EISTEDDFOD CEREDIGION 2020

Cyfarfod Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020
Cymunedau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed

Nos Fercher, 23 Ionawr croesawyd nifer dda o drigolion y tri phlwyf i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Bethan Davies ac

atgoffodd pawb o'r hyn a gymerodd le yn y cyfarfod cyntaf yn Llangynfelyn.

Nododd y byddai Raffl Fawr Eisteddfod Ceredigion 2020 yn cael ei lansio yn Chwefror gyda chyfanswm y tocynnau a werthir gennym ni yn cyfrif tuag at ein targed ariannol.

Cafwyd ar ddeall fod blwch casglu arian mân ar gownter Cletwr eisoes yn ei le.

Yn y dyfodol agos trefnwyd

- 2 MAWRTH – Cawl a Chân yn y Neuadd Goffa, – derbynir hanner yr elw a bydd raffl ar y noson.
- 2 MAWRTH – Noson Gawl yn Cletwr
- 5 EBRILL – Cwis dwy-ieithog yn Cletwr
- Ym Mehefin / Gorffennaf bydd noson Rhostio Mochyn, Bar ac Adloniant yn cael ei drefnu yn Ffwrnais.

Cafwyd llu o syniadau gan nifer o unigolion a oedd yn bresennol, am ddigwyddiadau a dulliau eraill o godi arian megis Stomp Farddonol, Dawns yn y Neuadd Goffa, arddangosfa o hen ffilmiau yn Eglwysfach, noson yng nghwmni Hergest yn y Neuadd Goffa, rasys moch, gwylio gêm rygbi Cymru ar sgrîn fawr yn y Neuadd Goffa yn Chwefror 2020 gyda chyrri i ddilyn a nodwyd hefyd bod nifer o famau ifanc yr ardal yn awyddus i drefnu digwyddiad.

Mae'n fwriad gan yr Ysgrifennydd Rhian Evans i greu tudalen ar 'Facebook' er mwyn hysbysebu digwyddiadau a rhannu gwybodaeth, felly cadwch lygaid ar y cyfryngau cymdeithasol!

Swyddogion y Pwyllgor Apêl yw:

Cadeirydd – Bethan Davies
Is-gadeirydd – Phil Davies
Ysgrifennydd – Rhian Evans
Is-Ysgrifennydd – Fal Jenkins
Trysorydd – Ellen ap Gwynn


Cynhelir cyfarfod nesaf o Bwyllgor Apêl Cymunedau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed ar nos Fercher, 10 Ebrill am 7 o'r gloch yn Ystafell Haearn, Eglwysfach.
Beth am i chi ymuno â ni?

Pantri Pawb

Mae Capel Bethel wedi dechrau codi arian i gefnogi pedwar prosiect gwahanol ym Madagascar sy'n ymwneud â phlant, merched, gofal meddygol a'r amgylchedd.

Y prosiect cyntaf sydd ar y gweill yw cynhyrchu llyfr ryseitiau, felly hoffwn wahodd unrhywun i anfon eich hoff rysait i ni erbyn canol mis Mawrth, drwy ebostio helen.iwan@btinternet.com neu ffonio Helen Jones ar 01970 832760.

Os hoffech noddi unrhyw un o'r ryseitiau, mae hynny hefyd yn bosib drwy anfon neges at Helen.



Ydych chi'n cofio'r llyfrn ryseitiau yma?
Ydych chi dal i fod yn ei ddefnyddio?

Dyma un rysait o **Bwyd Blasus Bethel**:

CACEN FORON

Cynhwysion

- 1 cwpan o flawd cyflawn
- 1 cwpan o flawd gwyn
- 2 llwy de o bowdr codi
- 1½ llwy de o soda cabi
- ½-1 llwy de o halen
- 1-2 llwy de o sinamon



- 1½ cwpan o siwgr
- 1 cwpan o olew
- 4 wy

- 2 gwpan o foron wedi'u gratio
- ½ cwpan o gnau wedi'u malu
- 1 tun 14 owns o binafal wedi'i falu'n fân

Dull

Hidlwch y 6 cynhwysyn cyntaf i bowlen.

- Ychwanegwch y siwgr, yr olew a'r wyau.
- Ychwanegwch y moron, ac yna'r cnau a'r pinafal.
- Rhwch y gymysgedd mewn dysgl bobi sgwâr, ddofn, wedi'i hiro.
- Coginiwch am 35-40 munud mewn ffwrn 350°F/175°C/Nwy 4.

Eisin

- ½ cwpan o fenyn meddal
- 8 owns o gaws Philadelphia
- 1 pwys o siwgr eisin
- 1 llwy de o rinflas fanila (os dymunir)

Dull

- Cymysgwch y menyngwch a'r caws yn dda.
- Ychwanegwch y siwgr eisin fesul tipyn.
- Ar ôl i'r gacen oeri'n iawn, gorchuddiwch hi â'r eisin.

Mrs MJ Evans, Brynawelon



BWYD I BAWB

argraffu da
am bris da



yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Bwyd da... Cwmni da!



yBlac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Ysgol Gymunedol



Dydd Miwsig Cymru

Rydym wrth ein boddau gyda cherddoriaeth o bob math yn Ysgol Tal-y-bont ac roedden ni'n falch iawn o gael dathlu Dydd Miwsig Cymru mewn steil gyda'r cardiau Trymps newydd. Diolch yn fawr i Siop Inc a Siop y Pethe.



Sêr y Sgwteri

Da iawn i holl sêr y mis yma eto. Rydych chi gyd yn llawn haeddu eich gwobr. Cofiwch wisgo'n addas a chofiwch sgwtera'n ddiogel.



Cyfri Adar RSPB

Bob blwyddyn, rydym yn falch iawn o fod yn rhan o ymgyrch cyfri adar RSPB. Er gwaethaf bore oer iawn roedd y plant yn frwd iawn i gasglu a chofnodi eleni eto. Da iawn chi.



Gala Nofio

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio i ysgolion Cylch Aberystwyth. Aeth tîm o'r ysgol i gystadlu unwaith eto. Cafwyd sawl perfformiad arbennig a llongyfarchiadau mawr i Finley yn enwedig am ennill ei gystadleuaeth yn erbyn bechgyn yr ysgolion lleol i gyd. Da iawn chi gyd.



Cogurdd

Mae'n braf gweld cymaint o ddiddordeb yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd eleni eto. Mae'r gystadleuaeth yn un heriol iawn a'r gamp eleni oedd paratoi cebab llysieuol a phesto heb gnau, a hynny mewn awr yn unig! Roedd safon uchel iawn i'r cystadlu a'r enillydd eleni oedd Ava Lewis sy'n mynd i gynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Diolch o galon i Mrs Myfanwy James am y dasg anodd o feirniadu eleni eto. Pob hwyl i ti Ava yn Ysgol Bro Teifi

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog



Ysgol Tal-y-bont
Tal-y-bont
Ceredigion
SY24 5HE
4 o Ionawr 2019

Annwyl bawb yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, Diolch yn fawr iawn am gael dod i Llangrannog wythnos diwethaf. Roedden ni'n lwcus iawn i gael gwneud yr holl weithgareddau. Roedd y bwyd yn arbennig – yn enwedig y pitsa!

Fe wnaethon ni fwynhau marchogaeth y ceffylau yn fawr, yn enwedig marchogaeth Patch y ceffyl. Roedd Patch yn edrych fel y ceffyl o'r ffilm 'Brave'! Roedd Cledwyn y ceffyl yn ddrwg iawn ac yn cerdded yn rhy gyflym!

Ein hoff bethau ni oedd y gwibgartio a'r nofio. Roedd y pwll nofio yn gynnes braf. Roedd y fflôts mawr sgwâr yn gymaint o hwyl.

Tro nesa bydden ni'n hoffi cael tro ar y "go-carts".

Diolch eto.

Oddi wrth,

Ela ac Hedydd

Tal-y-bont

Ysgol iach

Diogelwch ar y we

Ar ddechrau Chwefror roedd hi'n Ddiwrnod Cadw'n Ddiogel ar y we. Buom yn atgoffa ein gilydd pa mor bwysig ydy hi i ni gyd ddefnyddio'r we a'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd cyfrifol. Fe gyfansoddodd plant Blwyddyn 5 a 6 rapiau ac fe berfformiwyd y caneuon mewn gwasanaeth arbennig i atgyfnerthu'r negeseuon pwysig:

Mae angen bod yn SMART.
S am Smart
M am Meddwl
A am Arhoswch
R am Rhowch
T am Trafod
Siaradwch. Meddylwch. Cyn dweud DIM BYD
Fel y gallwch deimlo'n ddiogel a chyfforddus o hyd.
Trafodwch gyda'ch teulu,
Os oes rhywbeth yn eich poeni.
Peidiwch bod yn ffwl
Dydy bwllo ddim yn cwl.
Cofiwch bod yn gyfrifol
Rhag of i bethau droi'n ddifrifol.
Siaradwch. Meddylwch. Arhoswch. Rhowch. Trafodwch
Mae'n bwysig bod yn SMART.

Helo 'Na!

Dyma'r ail yn ein cyfres achlysurol lle byddwn yn holi hanes amryw o bobl a fagwyd yn nalgylch y papur ond sydd bellach yn byw mewn ardaloedd eraill o Gymru neu thu hwnt. Y tro hwn cawn hanes Rhian Jones sy wedi ymgartrefu yn Abertawe.



‘Angylion’ ysgol Tal-y-bont - dosbarth Mrs Charlton tua 1987?

Ar drothwy penblwydd ‘arbennig’ mae’n gyfnod o hel atgofion am ddyddiau plentyndod yn Nhalybont. Mae’r rhan fwyaf yn ymwneud â threulio amser yn yr awyr iach – cicio pêl tu fas y tŷ gyda fy mrodyr Gerwyn ac Eifion, nofio a gwersylla ym Mraichgarw, a cherdded ‘rownd y Felin’ ac Allt y Crib cannoedd o weithiau. Lot o sbort diniwed a rhywfaint o ddrygioni!

Uchafbwyntiau’r wythnos oedd ymarfer pêl-droed ar nos Lun ac yna chwarae yng nghynghrair y ‘Mini Minors’ ar fore Sadwrn. Ro’n i hefyd yn ymarfer gyda band pres Aberystwyth ar nos Fawrth ond a bod yn onest doedd chwarae’r cornet (ac yn nes ymlaen y tiwba, ie tiwba!) ddim yn dod yn gwbwl naturiol. Serch



Gerwyn, Eifion a minnau yn gwylio’r Elyrch yn Stadiwm y Liberty. Y tri ohonom yn dal i fwynhau peldroed – gwylio yn hytrach na chwarae erbyn hyn!

hynny fe gafodd Lynn y Siop a minnau dipyn o sbort cyn ac ar ôl yr ymarferion. Daeth y ddwy ohonom yn gydweithwyr flynyddoedd yn ddiweddarach a chawsom brofiadau gwerthfawr yn gweini cwsmeriaid yn y Llew Du.

Roedd Angharad ‘Griff’ Nantddu a minnau yn dipyn o ‘bartners’ a dwi’n cofio y ddwy ohonom yn gwisgo lan fel trênn yng ngharnifal Talybont un flwyddyn. Cawsom gam, heb os. Soniais am wersylla ac mae gen i gof o Angharad yn rhoi ‘padlock’ ar zip y babell rhywdro ac yna methu dod o hyd i’r allwedd a minnau yn gorfod rhwygo twll yn y drws i ni gael dianc.

Ymlaen i Ysgol Penweddig ac yna i Brifysgol Abertawe i astudio Ffrangeg, Almaeneg ac Astudiaethau Busnes yn 1997. Fe wirionais yn llwyr ar fy nghyfnod yn y coleg a cheisiais ganfod cydbwysedd rhwng yr astudio a’r mwynhau. Braint mawr oedd cael fy newis yn gapten ar dim pêl-droed Merched Prifysgolion Cymru yng Ngemau Prifysgolion Prydain ym Melffast yn 1998, gan chwarae Gogledd Iwerddon ar yr union ddiwrnod arwyddwyd y gytundeb heddwch hanesyddol.

Treuliais flwyddyn yn Strasbourg fel rhan o ngradd ac yn ystod y flwyddyn honno y ces fy mlas cyntaf go iawn o ‘deithio’. Mae ymweld â llefydd newydd yn parhau yn ddiddordeb mawr ac er bod fy nulliau teithio ychydig yn fwy ‘soffistigedig’ erbyn hyn rwy’n hiraethu braidd am godi pac funud ola a chymryd trenau a bysus am oriau maith cyn clwydo mewn hostel gyda degau o bobl eraill yn yr un ‘dorm’.

Wedi graddio, treuliais flwyddyn yn teithio yn Awstralia a Seland Newydd a bum yn diwtor y Gymraeg ym Mhrifysgol Rennes, Llydaw am ddwy flynedd. Dychwelais i Abertawe yn 2005 a phrynu tŷ yn y ddinas, a byddai’n rhesymol i feddwl mod i o’r diwedd wedi setlo. Ond yn 2012, wedi cyfnod hapus gydag elusen Shelter Cymru, fe gymerais rôl Prif Swyddog Gweithredol Canolfan Cymry Llundain. Dyna oedd tair blynedd prysuraf, mwyaf heriol ond mwyaf cyffrous fy mywyd! Mewn un diwrnod gallwn i fod yn newid casgenni cwrw yn y bore ac yna mewn rhyw ddigwyddiad nodedig gyda’r hwyr a gorfod gwisgo ffroc smart a sodlau. Mae nyled yn fawr i Mam a Dad am fy nghefnogi drwy’r profiadau yma i gyd ac am ddod i Lundain ar sawl achlysur i helpu gyda gwaith cynnal a chadw’r Ganolfan!

A dyma fi yn ôl yn Llecyn Llawen, Abertawe ac yn gweithio i’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Nghaerfyrddin ers dros pedair blynedd. Dwi’n dychwelyd i Dal-y-bont tua unwaith y mis ac wrth fy modd yn treulio amser gyda’r tylwyth i gyd ac yn enwedig fy pump nith – Glain, Ela, Swyn, Miri a Heti. Pan fyddan nhw yn ddigon hen ac os bydd yr awydd yno i deithio’r byd, fe fydd Anti Rhi yno i gario eu cesys, dim problem.

Dwi’n dwlu ar fyw yn Abertawe – mae bywyd yn brysur ar hyn o bryd rhwng y gwaith, gwirfoddoli a chymdeithasu yng Nghanolfan Gymraeg Tŷ Tawe, ceisio cerdded Llwybr Arfordir Cymru ac hyfforddi ar gyfer Marathon Llundain ym mis Ebrill. Rwy’n lwcus mod yn gallu galw dau le yn ‘adre’. Efallai daw’r cyfle i weithio tu hwnt i Gymru eto yn y dyfodol, pwy â wŷr, ond merch o ogledd Ceredigion ydw i, doed â ddelo!

CHWARAEON

CYFLWYNO'R CYNLLUNIAU



Aelodau'r pwyllgor, Bryn Smith ac Evan Rowlands, yn esbonio'r cyfan i John Evans. Hefyd yn y llun mae Ceri Jenkins o 'Cynnal y Cardi'.

Daeth dros wythdeg o drigolion yr ardal ynghyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 29 Ionawr i ddysgu mwy a thrafod am gynlluniau Cymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a'r Cylch i ddatblygu maes chwarae sefydlog ar gyfer y dalgylch am y tro cyntaf erioed.

Yn bresennol roedd aelodau pwyllgor y Gymdeithas a fu wrthi am dros bedair awr yn esbonio natur y cynllun wrth i lif cyson o bentrefwyr o bob oedran ddod drwy ddrws y Neuadd mewn sesiwn galw draw. Manteisiwyd ar y cyfle i dderbyn sylwadau cadarnhaol niferus yn ogystal â thrafod dros banded ychydig o bryderon am y cynllun. Hefyd yn bresennol oedd Ms. Ceri Jenkins yn cynrychioli



Lansiwyd "Dathlu Cymuned Tre'r Ddôl a Thre Taliesin" ddydd Sadwrn Chwefror 2il yn Llanfach, Tre Taliesin. Mynychodd cannoedd o bobl y diwrnod, (trefnwyd gan Cletwr). Mwynhawyd cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o nifer o sefydliadau lleol, sydd â diddordeb yn y ddau bentref a'u treftadaeth naturiol a hanesyddol. Roedd y rhain yn cynnwys Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, Archifdy Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion, Adnoddau Naturiol Cymru a'r prosiect Enwau Hanesyddol Cymru.

Dechreuodd y diwrnod gyda sgwrs fer gan Nigel Callaghan, cadeirydd Treftadaeth Llangynfelyn. Daeth llawer o bobl â lluniau a dogfennau eraill a sganiwyd, gan ddechrau archif leol a fydd yn cofnodi hanes tai yn yr ardal.

Drwy gydol y dydd, roedd Jenny Dingle a thîm o wirfoddolwyr yn helpu pobl i gyfrannu at ddarlun ffelt yn seiliedig ar anifeiliaid ac adar. Creodd Naomi Heath Map Stori Gymunedol trwy wahodd y rheiny a oedd yn bresennol i nodi lle maent yn byw ac i gofnodi unrhyw straeon personol ar y map. Dangosodd Anne Marie Carty ffilm am Gors Fochno ac un arall a ddywedodd stori siop a chaffi Cletwr a'i symud i'r adeilad newydd. Daeth diwrnod bywiog i ben gyda pherfformiad gan y storiwr Peter Stevenson a Gwilym Morus-Baird, bardd a cherddor.

Cefnogir y prosiect gan Gronfa Loteri Rhannu Treftadaeth a bydd yn parhau drwy gydol 2019. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gysylltu â'r Cletwr neu anfon e-bost at cc@cletwr.com

'Cynnal y Cardi' (cyllid o Ewrop sy'n cael ei reoli gan y Cyngor Sir) a oedd yn gyfrifol am ariannu adroddiad dichonoldeb ar y cynllun.

Dosbarthwyd taflen a oedd yn ateb rhai o'r cwestiynau a oedd yn debyg o godi. Isod ceir rhai o'r cwestiynau a'r atebion o'r daflen:

Lle fydd y maes chwarae?

Ar y tir y tu ôl i Ysgol Tal-y-bont – safle canolog a chyfleus i'r gymuned gyfan.

O ystyried natur y tir, a ydi'r prosiect yn ymarferol?

Derbyniwyd adroddiad dichonoldeb gan gwmni arbenigol sy'n cadarnhau bod y datblygiad yn bosibl.

Pwy fydd yn cael defnyddio'r maes?

Pawb yn y gymuned, gan gynnwys y timau pêl-droed ieuenctid ac oedolion, yr ysgol, a chymdeithasau lleol ar gyfer gweithgareddau hamdden cymwys.

A fydd y datblygiad yn medru arwain at lifogydd yn yr afon Ceulan?

Mae cynllun draenio yn cael ei baratoi a fydd yn argymhell dulliau o reoli llif y dŵr i'r afon. Ni fydd y llif hwnnw yn uwch na'r hyn sy'n digwydd nawr.

Pwy fydd yn talu am y datblygiad?

Derbyniwyd grantiau eisoes gan Cynnal y Cardi (arian o Ewrop sy'n cael ei reoli gan y Cyngor Sir) ar gyfer cynnal ymchwil a pharatoi adroddiadau arbenigol. Disgwylir i brif waith y datblygiad gael ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol ond byddwn yn croesawu cefnogaeth ariannol ac ymarferol lleol.

Yn y rhifyn diwethaf o *Bapur Pawb* awgrymwyd ei fod yn 'gan mlynedd ers i'r gymuned ymdrechu'n ddygn er mwyn adeiladu'r Neuadd Goffa' ac 'efallai ei bod yn amser i'r genhedlaeth bresennol weithredu yn yr un modd'. O ystyried yr ymateb brwdfrydig a gafwyd i'r cynlluniau yn y cyfarfod, ni fydd angen poeni o gwbl am gomitment y gymuned i'r datblygiad hwn.

Y Gair Olaf



Mae pobl yn gofyn, 'Wyt ti'n hapus yn byw yn Nhal-y-bont?' Yr ateb bob tro yw, 'Ydw, wrth fy modd'. Aeth un mlynedd ar bymtheg hapus heibio mor gyflym, mae hi hyd yn oed yn anodd cofio byw unrhyw le arall. Ar y llaw arall, atgofion melyn sy gen i o'r chwarter canrif yn Llanbadarn Fawr lle magwyd ein plant. Roedd byw yn agos i Aber yn gyfleus i'r gwaith, i'r ysgolion ac i ddiddordebau ein teulu.

Y rheswm pennaf dros symud yn wreiddiol oedd i dŷ gyda golygfa. Ar y pryd doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor braf roedd byw yn Nhal-y-bont yn mynd i fod.

Dwi wedi ymddiddori yn natur erioed, falle yn deillio o ddyddiau coleg yn astudio bioleg ac wrth i mi heneiddio mae byd natur yn dod i olygu mwy a mwy i mi. Mae'r ardal o gwmpas Tal-y-bont mor brydferth, y mynyddoedd, y môr, y gors ac yn arbennig y bryniau lle galla i gerdded heb weld dim ond pethau naturiol.

Dyma'r tro cyntaf yn fy mywyd i mi fyw mewn pentref go iawn. Mae hi siŵr o fod yn haws dod i nabod pobl mewn cymuned mor glos yn enwedig pan mae'r mwyafrif yn barod i gael gair wrth fynd heibio.

Tybed faint o bobl Tal-y-bont sy'n dod o'r ardal yn wreiddiol; a faint o bobl dŵad sydd. Ydyn ni i gyd yn gwerthfawrogi ein pentre' a'r gymuned cymaint â minnau? I orffen hoffwn i ddiolch i bawb am eu cyfeillgarwch ac am fy nghynnwys i ym mywyd y pentre' arbennig hwn.

Trish Huws